Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Map trywydd Golwg Fyd-eang Medr: Cefndir, cyd-destun a dull

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## 1. Cyd-destun a rôl Medr

Datblygwyd map trywydd Golwg Fyd-eang Medr ar adeg dyngedfennol mewn addysg yn y cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol. Yng Nghymru a'r DU, mae newidiadau i bolisi, cyllid a threfniadau rheoleiddio wedi newid y dirwedd a'r cyd-destun y darperir addysg drydyddol ynddynt.

Mae ffyrdd newydd y gall Cymru a'r DU gael mynediad at raglenni ac ymgysylltu â rhaglenni sy'n cefnogi rhyngwladoli – megis y DU yn ymwneud drachefn â'r rhaglen Erasmus+ – yn creu cyfleoedd sylweddol. Ar yr un pryd, ceir ansicrwydd ynghylch dyfodol rhaglenni symudedd eraill ac angen i sicrhau nad yw'r cynnydd a wnaed tuag at gynyddu cynwysoldeb ac amrywiaeth dysgwyr a oedd yn ymgysylltu â symudedd a alluogwyd trwy'r rhaglenni hynny'n cael ei golli.

Mae ansicrwydd a chyfnewidioldeb o'r fath yn creu her unigryw i ddysgwyr a darparwyr, yn enwedig y darparwyr hynny y mae ymgysylltiad rhyngwladol yn hollbwysig i'w cenhadaeth ac yn hanfodol i'w cynaliadwyedd ariannol.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gwerth ehangach y gall gweithgarwch rhyngwladol gyda phartneriaid byd-eang ei greu i ddysgwyr, darparwyr a'r gymuned ehangach:

- Mae prosiectau symudedd a chydlafurio rhyngwladol o gymorth i wella **sgiliau a gallu dysgwyr a staff**. Mae dod i gysylltiad ag amgylcheddau, profiadau ac addysgegau newydd yn rhoi anogaeth i ddatblygu gwybodaeth, galluoedd, dulliau a chymwyseddau rhyngddiwylliannol newydd ac iddynt werth personol a phroffesiynol.
- Mae golwg fyd-eang hefyd yn **cyd-destunoli ac yn cyfoethogi dysgu ac addysgu**, yn enwedig mewn meysydd astudio â ffocws rhyngwladol megis ieithoedd modern, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth a busnes trwy ddarparu profiadau "go iawn" a'r cyfle i weithio gyda chymheiriaid rhyngwladol.
- Gall sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd unigryw staff, myfyrwyr a phartneriaid rhyngwladol darparwyr gael eu defnyddio i **fynd i'r afael â materion lleol** trwy gyflawni rhaglenni ymgysylltu cymunedol a chenhadaeth ddinesig. Gall hyn fod mor syml â myfyriwr rhyngwladol yn tiwtora dysgwyr lleol eu hiaith frodorol, neu mor bellgyrhaeddol â darparwyr yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i fynd i'r afael â materion cymdeithasol mwy.
- Mae partneriaethau rhyngwladol yn gosod Cymru mewn sefyllfa fel cenedl eangfrydig, hygred, a chanddi werth buddsoddi a diplomataidd hirdymor, gan wella **grym meddal ac enw da** Cymru a darparu llwyfan i rannu diwylliant Cymru.

Mae llawer o'r rhaglenni y mae Medr eisoes yn eu cefnogi'n cyfrannu at ein dyletswydd strategol ar gyfer golwg fyd-eang. Mae'r map trywydd hwn yn amlinellu sut y bydd Medr yn ehangu ar ei arlwy cyfredol, yn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn cynorthwyo darparwyr a dysgwyr i gael mynediad at gymaint o gyfleoedd i alluogi ymgysylltu rhyngwladol o ansawdd da â phosibl trwy ganolbwyntio ar gamau gweithredu sydd:

- yn ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth gyfredol,

- yn galluogi mwy o gynrychiolaeth a chyfranogiad gan ddarparwyr, dysgwyr ac ymchwilwyr Cymru mewn gweithgareddau rhyngwladol, ac
- yn hybu'r arfer o ddatblygu a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.

Mae Medr yn cydnabod nad oedd gan yr un sefydliad berchnogaeth lwyr ar yr agenda ryngwladol mewn addysg drydyddol, ac felly rydym wedi cydweithio a byddwn yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol yng Nghymru a'r tu allan i Gymru i sicrhau bod ein dull yn berthnasol, yn gallu addasu ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r deilliannau gorau posibl.

## 2. Dyletswyddau Statudol Medr

Mae Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) yn amlinellu 11 o ddyletswyddau strategol y mae Medr yn gyfrifol amdanynt, ac un o'r rhain yw **hybu Golwg Fyd-eang.**

Fel rhan o'r ddyletswydd hon, rhaid i Medr hybu:

a) *Cyfleoedd mewn addysg drydyddol i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru i astudio neu addysgu mewn mannau eraill yn y byd;*

b) *Cyfleoedd i astudio neu addysgu mewn addysg drydyddol yng Nghymru ar gyfer personau sy'n preswylio fel arfer y tu allan i Gymru;*

c) *Cyfleoedd i'r buddiannau a geir yn sgil astudio ac addysgu o'r math a grybwyllir ym mharagraffau (a) a (b) gael eu defnyddio ar gyfer llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru;*

d) *Cydlafurio mewn addysg drydyddol rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a'r rheini mewn mannau eraill yn y byd;*

e) *Cyfleoedd i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru a darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru i wneud gwaith ymchwil ac arloesi mewn mannau eraill yn y byd.*

Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y pum maes hyn yn golygu y gellir eu distyllu'n rhesymol yn dri **amcan craidd** y bydd cymorth Medr ar gyfer Golwg Fyd-eang yn canolbwyntio arnynt:

1) **Hybu symudedd**
2) **Galluogi cydlafurio rhyngwladol**
3) **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru**

Nid yw gwaith yn y gofod Golwg Fyd-eang yn gweithredu'n annibynnol ar gyfrifoldebau eraill Medr ac er bod pob dyletswydd strategol yn dwyn ei rhwymedigaethau a'i disgwyliadau penodol ei hun, maent yn gydgysylltiedig. Felly bydd gweithgareddau a gefnogir trwy ddull Medr o ymdrin â Golwg Fyd-eang yn cyflawni deilliannau ar draws ein hystod o ddyletswyddau strategol ac yn ategu'r Uchelgeisiau Hirdymor a amlinellir yn y Cynllun Strategol (2025-2030).

| Dyletswyddau Strategol (Deddf 2022) | Uchelgeisiau Hirdymor (Cynllun Strategol Medr) |
|---|---|
| • Hybu dysgu gydol oes<br>• Hybu cyfle cyfartal<br>• Annog cyfranogiad<br>• Hybu gwelliant parhaus<br>• Hybu gwaith ymchwil ac arloesi<br>• Hybu cydlafurio a chydlynu<br>• Economi gynaliadwy ac arloesol<br>• Hybu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Hybu cenhadaeth ddinesig<br>• Hybu cydlafurio rhwng darparwyr ac undebau llafur<br>• Hybu golwg fyd-eang | • Profiadau a deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr<br>• Cyfleoedd mwy teg<br>• Ymgysylltu a llesiant gwell ar gyfer dysgwyr<br>• Gwybodaeth a sgiliau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion Cymru<br>• Twf yn rhagoriaeth ac effaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru<br>• Mwy o ddysgu yn Gymraeg<br>• Mwy o gyfranogiad mewn addysg drydyddol<br>• Llwybrau dysgu mwy cydlynol |

## 3. Dull a dyluniad

Mae'r map trywydd wedi'i fwriadu i ddarparu trosolwg gynhwysfawr o'r cymorth y mae Medr yn ei gynnig i'r sector addysg drydyddol yng Nghymru i hybu Golwg Fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan Medr sy'n bodoli eisoes a mentrau newydd sydd wedi'u bwriadu i ehangu ein harlwy ac annog mwy o ymgysylltu ar draws y sector addysg drydyddol. Nid yw'n diffinio nac yn cyfyngu ar gyfanrwydd gwaith Medr yn y gofod rhyngwladol. Er enghraifft, mae gwaith parhaus gan Medr i asesu a monitro niferoedd cofrestru myfyrwyr rhyngwladol yn goleuo ein cyfrifoldeb statudol i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr yng Nghymru. Yn yr un modd, mae ein gwaith i fonitro ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwyr trydyddol gan gynnwys, mewn nifer o achosion, yr hyn a ddarperir dramor yn elfen bwysig o warchod buddiannau dysgwyr a sicrhau bod Cymru'n dal i fod yn gyrchfan astudio hygred ac yn bartner cydweithredol.

Wrth ddylunio'r map trywydd, mae Medr wedi parhau i fod yn ymwybodol o'r angen i daro cydbwysedd rhwng cyflawni'r tri amcan craidd a nodir uchod a pheidio â gweithredu'n groes i'w rôl a'i gyfrifoldebau fel cyllidwr a rheoleiddiwr addysg drydyddol. Mae hyn wedi bod yn dyngedfennol o ran pennu pa gamau gweithredu a gaiff eu cynnwys yn y map trywydd yn ogystal â pha un a ddylai fod gan Medr rôl arwain ynteu rôl gefnogol mewn gwaith i'w cyflawni, gan sicrhau bod gennym ddigon o wybodaeth am yr adnoddau a gynigir gan sefydliadau eraill fel bod gweithgareddau Medr yn ategu yn hytrach nag yn dyblygu cyfleoedd.

Ochr yn ochr ag ymchwil ddesg a monitro polisi, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws sector addysg drydyddol Cymru a'r gymuned addysgol ryngwladol wedi bod yn ganolog i ddylunio'r map trywydd. Mae Medr wedi casglu ystod mor eang o safbwyntiau â phosibl gan gydnabod hefyd y pwysau o ran amser a deimlir gan randdeiliaid yn eu rolau o ddydd i ddydd. Felly, rydym wedi defnyddio cyfuniad o ddulliau gan gynnwys sgyrsiau un-i-un a chyfarfodydd grŵp/bord gron i adnabod ble y mae'r gwasgbwyntiau ac i gasglu adborth ar y rôl a all fod gan Medr yn nhyb rhanddeiliaid o ran cefnogi eu blaenoriaethau rhyngwladol hwy.

Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr ond mae'n cynnwys rhai o'r sefydliadau y mae Medr wedi ceisio arweiniad a her ganddynt wrth ddylunio'r map trywydd:

- Y Cyngor Prydeinig
- ColegauCymru – Arweinydd Prosiectau Rhyngwladol ac aelodau o'r Rhwydwaith Rhyngwladol
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)
- Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru)
- Staff o ddarparwyr addysg drydyddol
- Rhaglen Taith
- Universities UK International (UUKI)
- Prifysgolion Cymru – Aelodau Polisi, Cymru Fyd-eang a'r Rhwydwaith Rhyngwladol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Llywodraeth Cymru

## 4. Y ddarpariaeth Golwg Fyd-eang gan Medr sy'n bodoli eisoes

Mae'n bwysig adlewyrchu, er bod y map trywydd Golwg Fyd-eang ei hun a rhai o'r camau gweithredu a gynhwysir ynddo'n newydd, bod Medr eisoes yn cynorthwyo'r sector addysg drydyddol ac ymchwil i ymgysylltu'n rhyngwladol trwy ei ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes a'i fod wedi cefnogi gweithgarwch yn y gofod hwn am nifer o flynyddoedd. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys:

### 1) Cyllid i alluogi a/neu wella gwaith partneriaid:

- Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB) – Mae Addysg Uwch Cymru Brwsel yn hyrwyddo buddiannau prifysgolion Cymru yn Ewrop, gan annog cydlafurio rhwng ymchwilwyr a phartneriaid posibl eraill, a chryfhau cysylltiadau prifysgolion â sefydliadau Ewropeaidd a phartneriaid rhanbarthol gan roi diweddariadau cyson i brifysgolion Cymru am ddatblygiadau a chyfleoedd Ewropeaidd
- Universities UK International (UUKi) – Mae UUKi yn hybu cyfleoedd i brifysgolion Cymru gyfranogi mewn cynlluniau cyllid a symudedd ar gyfer ymchwil ryngwladol fel rhan o ymgysylltu ehangach gan y DU; yn cefnogi ymgysylltiad a mewnwelediadau SAUau mewn perthynas â materion polisi rhyngwladol allweddol megis diogelwch ymchwil ac yn casglu gwybodaeth am fanteision ac yn hyrwyddo manteision cydweithio rhyngwladol.
- Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) – Menter gydweithredol sy'n dwyn ynghyd yr holl brifysgolion yng Nghymru i gryfhau ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Mae Rhwydwaith Arloesi Cymru'n cynyddu amlygrwydd ymchwil ac arloesi gan brifysgolion Cymru ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol, yn hwyluso cydlafurio rhyngddisgyblaethol, ac yn ei gwneud yn haws i brifysgolion Cymru ffurfio partneriaethau a rhannu seilwaith ac arbenigedd.

- Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW) – Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw Academi Genedlaethol Cymru ac mae'n dwyn ynghyd arbenigedd, profiad a chysylltiadau ei Chymrodoriaeth i hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru gan gynnwys hybu effaith fyd-eang ymchwil o Gymru. Trwy gydweithio rhyngwladol gydag academïau eraill (gan gynnwys Cynghrair yr Academïau Celtaidd) maent yn cynrychioli Cymru o ran hyrwyddo cyfraniad ymchwil at gymdeithas. Ochr yn ochr â hyn maent yn darparu cyllid grant i gefnogi cydweithio rhyngwladol (megis Athrofa Heddwch gyntaf Cymru). Gall cyfraniad Medr at gyllid craidd Cymdeithas Ddysgedig Cymru gael ei ddefnyddio i ategu'r cynllun Bwrsariaethau Teithio a Threuliau Gyrfa Gynnar, sy'n ei gwneud yn bosibl cyfnewid gwybodaeth, gan wella proffiliau ymchwilwyr, ac ehangu rhwydweithiau proffesiynol.
- Rôl Golygydd Cymru yn *The Conversation* – Mae'r rôl hon yn galluogi'r allbwn ymchwil ac academaidd a grëwyd yng Nghymru i gyrraedd cynulleidfa fawr, fyd-eang, gan wella amlygrwydd a bri darparwyr ac academyddion Cymru gyda phartneriaid rhyngwladol posibl.
- Y *Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol* (ISPF) – Medr sy'n gweinyddu cyllid DSIT a ddyrennir i Gymru ac yn ei drosglwyddo i SAUau cymwys, gan eu galluogi i feithrin mentrau cydlafurio ym maes ymchwil fyd-eang i ategu cymorth datblygu tramor.

## 2) Goruchwyliaeth a chanllawiau rheoleiddiol â ffocws ar ansawdd ar gyfer addysg a ddarperir y tu allan i Gymru

Mae Medr yn monitro ac yn hybu gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, darparwyr sydd wedi'u cofrestru neu a gyllidir.
Mae ein fframwaith rheoleiddio hefyd yn cynnwys amod dilysu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Medr sicrhau bod unrhyw drefniadau dilysu sydd yn eu lle'n effeithiol o ran galluogi'r darparwr i'w argyhoeddi ei hun ynghylch ansawdd yr addysg dan drefniadau o'r fath.

Mae niferoedd y myfyrwyr ar raglenni addysg drawswladol Cymru wedi tyfu 21.4% mewn pum mlynedd, o 28,795 o fyfyrwyr yn 2019-20 i 34,945 o fyfyrwyr yn 2023-24. Mae safle addysg drawswladol fel un o'r cyfranwyr allweddol at ddisgwyliadau Llywodraeth y DU ar gyfer twf mewnfuddsoddi fel a nodir yn y Strategaeth Addysg Ryngwladol (2025) yn dynodi bod hwn yn faes y gallwn ddisgwyl twf pellach ynddo.

Mae adolygiadau sicrhau ansawdd allanol yn diogelu enw da a safonau ansawdd y ddarpariaeth hon, ac ar gyfer darparwyr addysg uwch Cymru cynhelir y rhain gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA). Maent yn cynnwys yr holl ddarpariaeth addysg uwch mewn sefydliad, gan gynnwys darpariaeth freiniol a thrawswladol.

Ar ben hynny, mae holl ddarparwyr addysg uwch Cymru sydd â darpariaeth dramor yn cyfranogi yng Nghynllun Gwerthuso a Gwella Ansawdd Addysg Drawswladol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i hybu darpariaeth a llywodraethu addysgol o ansawdd da, gan warchod enw da Cymru'n rhyngwladol a lleihau'r risgiau ariannol a'r risgiau i enw da a ddaw o ddarpariaeth o ansawdd gwael.

Mae dull Medr o ymdrin ag ansawdd yn cyd-fynd â'r safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd yn yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd, gan ategu symudedd dysgwyr

a symudiad gweithwyr sy'n dymuno astudio, byw a gweithio dramor trwy wneud y cymwysterau sydd ganddynt yn eglur, yn gymaradwy ac yn gydnabyddedig y tu allan i Gymru a'r DU.

Mae Cofnod Alltraeth Cyfanredol HESA yn casglu data ar fyfyrwyr sy'n astudio dramor ar gyfer dyfarniadau gan ddarparwyr addysg uwch Cymru. Mae Medr yn monitro'r data hwn i helpu i asesu ansawdd y ddarpariaeth hon, gan gynnwys deilliannau dysgwyr.

## 3) Monitro a siapio polisi

Mae Medr yn cynorthwyo'r sector i gael mynediad at y datblygiadau diweddaraf mewn polisi addysg rhyngwladol ac ymateb iddynt trwy weithio gydag adrannau a chyfarwyddiaethau yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan gynnwys (e.e.):

- Y Swyddfa Gartref (Y DU)
- Yr Adran Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Y DU/Cymru)
- Yr Adran Addysg (Y DU/Cymru)
- Yr Adran Masnach Ryngwladol (Y DU/Cymru)
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach (Cymru)
- Yr Is-adran Addysg Drydyddol (Cymru)

Mae'r perthnasoedd hyn yn galluogi Medr i gynorthwyo darparwyr i siapio eu gwaith cynllunio strategol ac asesu risg, gan roi mecanwaith i Medr gael golwg gynnar ar newidiadau mewn polisi a siapio gwaith llunio polisi trwy rannu data, dadansoddiadau a chudd-wybodaeth am y sector.

## 4) Monitro ac asesu risg i gynaliadwyedd ariannol

Fel rhan o'r cyfrifoldeb rheoleiddiol ehangach i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr trydyddol, mae Medr yn ymholi data ac yn gweithio gyda darparwyr i ddeall bygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac i ddatblygu ymatebion. Yng nghyd-destun Golwg Fyd-eang, mae Medr yn gweithio'n agos gyda darparwyr i ddeall partneriaethau a threfniadau darpariaeth dramor sy'n dod i'r amlwg. Rydym yn asesu data recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i adnabod tueddiadau ac yn cynnal deialog weithredol gyda darparwyr a llunwyr polisi i ddeall ble y mae risgiau'n datblygu (ar lefel sefydliadol, ddaearyddol a pholisi), beth allai eu heffaith fod ac i gynnig mewnwelediad a chymorth ymgynghorol priodol i bob parti.

Mae'r pedwar maes a amlinellir uchod yn cynrychioli ymrwymiad adnoddau sylweddol; fodd bynnag, mae Medr yn cydnabod yr angen i roi rhagor o gymorth sy'n gyson â'i gylch gwaith sector cyfan. I'r perwyl hwn, mae'r map trywydd yn cynnwys nifer o fentrau a chamau gweithredu newydd a ddatblygwyd gyda rhwyddineb mynediad, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd mewn golwg fel bod darparwyr a dysgwyr yn gallu ymateb yn gyflym i risgiau a chyfleoedd wrth iddynt godi.

## 5. Sefydlu blaenoriaethau thematig a meysydd ffocws

Uchelgais Medr yw cefnogi ymgysylltu rhyngwladol trwy adeiladu ar ei gymorth cyfredol ar gyfer golwg fyd-eang a chanolbwyntio ar gamau gweithredu sy’n mynd i’r afael â risgiau, yn pontio bylchau mewn darpariaeth, yn galluogi mwy o gynrychiolaeth a chyfranogiad gan ddarparwyr a dysgwyr Cymru mewn gweithgarwch rhyngwladol, ac yn hybu datblygiad gwybodaeth ac arbenigedd.

Mae dadansoddi tueddiadau a materion sy’n dod i’r amlwg o safbwynt Cymru, y DU ac o safbwynt byd-eang yn amlygu cyfnewidioldeb y dirwedd addysg fyd-eang.

Er enghraifft, pan fo symudedd yn cael ei ystyried o safbwynt recriwtio myfyrwyr, mae’n dra hysbys bod myfyrwyr rhyngwladol yn dwyn manteision lluosog i sefydliadau Cymru sy’n nodi golwg a diwylliant mwy byd-eang ar y campws fel rhan o brofiad myfyrwyr, ac mae incwm o recriwtio rhyngwladol hefyd yn elfen bwysig o’r cynaliadwyedd ariannol i lawer o ddarparwyr. Fodd bynnag, mae tuedd tuag i lawr yn ddiweddar mewn recriwtio rhyngwladol wedi golygu bod nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy’n dod i Gymru wedi gostwng o oddeutu 28,700 yn 2022/23 i oddeutu 21,600 yn 2024/25. Mae hyn yn her sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y bydd Medr yn ei monitro ac yn adrodd arni, yn unol â’n cyfrifoldebau statudol ehangach.

Blaenoriaeth arall yw sicrhau nad yw Cymru’n gweithio o sefyllfa o anfantais o’i gymharu â gwledydd eraill y DU i sicrhau bod ein dysgwyr a’n darparwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o’r cyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael. I’r perwyl hwn mae Medr wedi adolygu’r modelau cymorth a darpariaeth a gynigir yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon – a chan asiantaethau â chylch gorchwyl sy’n cwmpasu’r DU gyfan – gan amcanu at sicrhau ein bod yn cynnig cyfleoedd ac adnoddau mwy cyfartal fel bod sector addysg drydyddol Cymru’n gallu cynyddu ei weithgarwch ymgysylltu rhyngwladol i’r eithaf.

Mae Medr wedi ymgysylltu â rhwydwaith o randdeiliaid, arbenigwyr y sector, ymarferwyr, llunwyr polisi ac uwch arweinwyr ar draws y sector addysg drydyddol i gasglu eu safbwyntiau am sut y gallwn ymateb i’r heriau hyn, beth arall y mae ei angen yn y maes hwn a’r rôl a ddylai fod gan Medr yn eu tyb hwy o ran darparu datrysiadau.

Yn naturiol, mae gweithio ar draws y sector trydyddol yn ei gyfanrwydd, gyda’i ystod eang o ddarparwyr, dysgwyr a chyd-destunau, yn gwneud ffurfio consensws ynghylch blaenoriaethau penodol yn gryn her. Er enghraifft, mae gan rai ymatebwyr hanes hirsefydlog o ymgysylltu â rhaglenni rhyngwladol, gyda hynny wedi bod yn cael ei ategu gan gyfeiriad strategol ac arfer sydd wedi ymwreiddio. Mae eraill, yn y cyfamser, yn gwbl newydd i’r gofod hwn ac mae arnynt angen cymorth i ddechrau ar eu taith ryngwladol.

Wrth benderfynu ble i ganolbwyntio ei weithgarwch, dilynodd Medr dair prif egwyddor:

1. **Ychwanegedd** – Gweithred lle gall Medr ychwanegu gwerth heb ddyblygu darpariaeth bresennol
2. **Cymesuredd** – Sicrhau bod gweithgarwch yn briodol i rôl Medr fel cyllidwr a rheoleiddiwr

3. **Effaith ar y system** – Datblygu ymyriadau sy'n cydnabod amrywiaeth darpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru a cheisio gwireddu manteision ar draws y sector

Ar y sail hon, fe adnabu Medr dair **blaenoriaeth thematig** drawsbynciol sy'n ymateb yn uniongyrchol i anghenion y sector ac sy'n cyd-fynd â'r amcanion statudol ar gyfer Golwg Fyd-eang:

**1. Darparu gwybodaeth a mewnwelediad**

Gwella mynediad at ddata a dadansoddiadau i ategu prosesau penderfynu gwybodus gan ddarparwyr, dysgwyr a llunwyr polisi.

**2. Galluogi Cydlafurio**

Cefnogi datblygiad partneriaethau, rhwydweithiau a chydlafurio cyfnod cynnar cynaliadwy ar draws ffiniau a sectorau.

**3. Monitro a Sganio'r Gorwel**

Defnyddio arbenigedd a pherthnasoedd Medr i gryfhau gallu'r sector i ddeall, rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau polisi, rheoleiddiol a geowleidyddol sy'n effeithio ar ymgysylltu rhyngwladol.

Nid yw'r themâu hyn yn gweithredu ar wahân i'w gilydd. Gyda'i gilydd maent yn darparu fframwaith cydlynus y gall Medr ei ddefnyddio i gefnogi symudedd, cydlafurio a budd i Gymru, gan hefyd ddal i fod yn ymatebol i dirwedd fyd-eang sy'n esblygu.

Ym mhob maes thematig, mae camau gweithredu wedi cael eu dylunio fel eu bod yn ymdrin ag un neu fwy nag un o'r amcanion craidd yn y Ddeddf. Mae'r tablau isod yn dangos sut y mae'r camau gweithredu newydd hyn a darpariaeth gan Medr sy'n bodoli eisoes yn croestorri â'r amcanion craidd, gan bwysleisio lle mae disgwyl i bob un gael yr effaith **fwyaf arwyddocaol**:

| | Amcanion craidd | | |
|---|---|---|---|
| | **Hybu symudedd** | **Galluogi cydlafurio rhyngwladol** | **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru** |
| **Maes Thematig 1: Darparu gwybodaeth a mewnwelediad** | | | |
| **NEWYDD/ESTYNEDIG** Cynhyrchu a rhannu dadansoddiadau o ddata | X | X | |
| **NEWYDD** Comisiynu mewnwelediad/ ymchwil gan drydydd partïon | | | X |

| | Amcanion craidd | | |
|---|---|---|---|
| | Hybu symudedd | Galluogi cydlafurio rhyngwladol | Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru |
| **Maes Thematig 2: Galluogi cydlafurio** | | | |
| **NEWYDD** Cefnogi Rhaglen Grantiau Bychain: | X | X | X |
| **NEWYDD** Cefnogi cyfranogiad mewn ymweliadau a dirprwyaethau | X | X | X |
| | | | |
| **NEWYDD** Creu rhwydweithiau o ddarparwyr/arbenigwyr Cymreig | X | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Addysg Uwch Cymru Brwsel | | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Rwydwaith Arloesi Cymru | | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Gymdeithas Ddysgedig Cymru | X | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i Olygydd Cymru, The Conversation | | X | X |
| Rheoli Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol | X | X | X |

| | Amcanion craidd | | |
|---|---|---|---|
| | Hybu symudedd | Galluogi cydlafurio rhyngwladol | Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru |
| **Maes Thematig 3: Monitro a sganio'r gorwel** | | | |
| **NEWYDD/ESTYNEDIG** Ymchwil ddesg a monitro polisi a datblygiadau mewn addysg drydyddol fyd-eang | | | X |
| **NEWYDD/ESTYNEDIG** Meithrin a chryfhau perthnasoedd â rhwydweithiau allweddol | | X | X |
| Cymorth ar ffurf cyllid i UUKI. | | X | X |
| Monitro ac ymateb i risgiau i gynaliadwyedd ariannol darparwyr sydd wedi'u gwreiddio mewn polisi a thueddiadau rhyngwladol | | | X |
| Monitro ac ymateb i risgiau i ansawdd darpariaeth a roddir yn rhyngwladol (Addysg Drawswladol) | | | X |

## 6. Blaenoriaethau thematig a chamau gweithredu – mewn manylder

Mae'r blaenoriaethau thematig yn darparu cyd-destun trosfwaol y mae camau gweithredu ac ymyriadau wedi cael eu datblygu ohono. Cynigir y bydd y **camau gweithredu** newydd canlynol yn gwella neu'n cael eu cynnig **yn ychwanegol at y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes** a ddisgrifir uchod ac nid ydynt wedi'u bwriadu i gyfyngu ar holl ystod na diffinio holl ystod y gwaith a gyflawnir gan Medr a all fod â dimensiwn rhyngwladol.

Yn gyson â'r angen i ymateb mewn modd ystwyth i gyfleoedd wrth iddynt godi, bydd y pwysoliad ar gyfer dyrannu adnoddau i'r camau gweithredu hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y sector ac yn cyd-fynd â risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg mewn addysg fyd-eang.

I'w gwneud yn bosibl cyflawni'r camau gweithredu, ac i gydlynu'r cymorth a'r rhaglenni ehangach sy'n gweithredu yn y gofod hwn, bydd swydd amser-llawn – Uwch Reolwr, Golwg Fyd-eang – yn cael ei chreu yn Medr.

### Maes Thematig 1: Darparu gwybodaeth a mewnwelediad

#### Cynhyrchu a rhannu dadansoddiadau o ddata

Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer dadansoddi, meysydd i'w harchwilio a bylchau mewn mewnwelediad ac yna'n rhannu gwybodaeth sy'n galluogi darparwyr i wneud penderfyniadau seiliedig-ar-ddata sy'n siapio eu hymgysylltiad rhyngwladol a'u gwaith cynllunio strategol.

#### Comisiynu mewnwelediad/ymchwil gan drydydd partïon

Lle byddai o fudd i'r sector gael mewnwelediadau newydd neu bwrpasol, bydd Medr yn cydlynu'r broses o gomisiynu darparwyr allanol i ddatblygu'r rhain.

### Maes Thematig 2: Galluogi cydlafurio.

#### Cefnogi Rhaglen Grantiau Bychain:

I alluogi darparwyr i greu neu ddatblygu cysylltiadau newydd â phartneriaid rhyngwladol, bydd Medr yn cynnig symiau bach o gyllid grant i ddarparwyr ffurfioli perthnasoedd, adnabod meysydd sy'n flaenoriaeth gyffredin, a datblygu cynlluniau ar gyfer cydlafurio parhaus a ffynonellau cyllid a fyddai'n gwella'r rhain. Ni fyddai grantiau Medr yn dyblygu cyllid sydd ar gael trwy sefydliadau eraill ond yn hytrach byddent ar gael i alluogi darparwyr i fanteisio ar gyfleoedd i gydlafurio pan nad oes opsiynau cyllido eraill ar gael. Er enghraifft, gallai arian gefnogi:

a) Cydlafurio Sefydliadol – i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol o bob math gan gynnwys rhannu arfer gorau, datblygu cwricwla a phrosiectau symudedd/cyfnewid ar gyfer myfyrwyr.
b) Presenoldeb mewn Rhwydweithiau/Cynadleddau – i roi cymorth i gynrychiolwyr o Gymru fod yn bresennol mewn digwyddiadau rhyngwladol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl creu cysylltiadau â phartneriaid newydd.

c) Cysylltiadau Ymchwil – i gefnogi perthnasoedd sefydliadol sy'n dod i'r amlwg neu'n newydd, adnabod blaenoriaethau thematig, meysydd ffocws a ffynonellau cyllid cynaliadwy i gefnogi partneriaethau ymchwil ac arloesi rhyngwladol

#### Cefnogi cyfranogiad mewn ymweliadau a dirprwyaethau

O dan y cam gweithredu hwn, bydd Medr yn cynorthwyo cynrychiolwyr o sector addysg drydyddol Cymru i ymgysylltu â dirprwyaethau a chenadaethau: y rhai sy'n ymweld â'r DU a'r rhai sy'n digwydd y tu allan i'r DU. Bydd Medr yn cydweithio'n agos gyda'i rwydweithiau yng Nghymru a'r tu allan i Gymru i adnabod cyfleoedd i ymgysylltu ac i annog ymwelwyr â'r DU i gynnwys Cymru yn eu teithiau. Bydd Medr hefyd yn cefnogi presenoldeb/ymgysylltiad o Gymru mewn cyfleoedd rhwydweithio rhyngwladol a gynhelir mewn rhannau eraill o'r DU.

#### Creu rhwydweithiau arbenigol Cymreig

Bydd Medr yn cefnogi ac yn hwyluso rhwydweithiau a grwpiau traws-sector sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a rhannu arfer gorau mewn darpariaeth addysg ryngwladol. Bydd ffocws y rhwydweithiau hyn yn cael ei bennu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn y sector at ddiben ymdrin ag anghenion darparwyr, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i lenwi bylchau mewn cymorth cyfredol ac ymdrin â risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

### Maes Thematig 3: Monitro a sganio'r gorwel.

Bydd Medr yn neilltuo adnoddau ychwanegol ac yn ychwanegu capasiti i lywio a gwella ein gweithgareddau yn y gofod yma, gyda hynny'n cael ei gydlynu'n bennaf gan rôl yr Uwch Reolwr, Golwg Fyd-eang.

#### Ymchwil ddesg a monitro polisi a datblygiadau mewn addysg drydyddol fyd-eang.

Fel rhan o gyfrifoldebau beunyddiol yr *Uwch Reolwr, Golwg Fyd-eang* yn Medr, bydd deiliad y swydd yn monitro'r cyfleoedd, heriau a thueddiadau parhaus a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn y gofod addysg ryngwladol trwy ymchwil ddesg a sganio'r gorwel. Bydd hefyd yn gweithredu fel dolen gyswllt yn Medr, gan ei gwneud yn bosibl creu cysylltiadau rhwng timau y mae eu gwaith yn cyfrannu tuag at – neu yr effeithir arno gan – flaenoriaethau Golwg Fyd-eang. Mae'r mewnwelediadau hyn yn sail i bennu strategaeth a blaenoriaethau mewnol Medr ar gyfer gweithgarwch Golwg Fyd-eang, gan gydnabod y gall newidiadau ac ansefydlogrwydd dramor effeithio'n uniongyrchol ar gyfrifoldebau ehangach Medr gan gynnwys monitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol darparwyr a'r cymorth a gynigir ar gyfer llesiant dysgwyr. Bydd mewnwelediadau a diweddariadau'n cael eu rhannu gyda'n rhwydwaith o randdeiliaid hefyd i helpu darparwyr i ddatblygu eu blaenoriaethau yn y gofod hwn.

#### Meithrin a chryfhau perthnasoedd â rhanddeiliaid a llunwyr polisi.

Bydd yr Uwch Reolwr, Golwg Fyd-eang yn cynnal ac yn ehangu ein hymgysylltiad â llunwyr polisi, rhwydweithiau, grwpiau ac unigolion allanol allweddol yng Nghymru, yn y DU a thramor gan amcanu at roi arweiniad i wneud penderfyniadau a sicrhau bod sector addysg drydyddol Cymru'n cael ei gynnwys a'i gynrychioli mewn polisi, rhaglenni, prosiectau a gweithgareddau rhyngwladol cyfredol ac sydd ar ddod.

## 7. Llywodraethu ac ymgysylltu parhaus

Mae'r map trywydd Golwg Fyd-eang wedi'i fwriadu i fod yn ddeinamig ac esblygu dros amser, a bydd y modd y caiff yr adnoddau a'r gweithgareddau ynddo eu pwysoli a'u blaenoriaethu'n cael ei fonitro'n barhaus gydag adolygiadau'n cael eu cynnal yn flynyddol. Bydd hyn yn galluogi Medr i asesu risg, mapio cyfleoedd a dyrannu adnoddau yn ôl ble y mae eu hangen fwyaf ac y gallant gael yr effaith fwyaf.

Bydd mewnbwn rhanddeiliaid yn hanfodol yn y broses hon ac i alluogi'r ddeialog hon i ddigwydd, bydd grŵp cynghori ar olwg fyd-eang traws-sectoraidd yn cael ei sefydlu ac yn cwrdd yn rheolaidd i rannu mewnwelediad, sefydlu blaenoriaethau a chytuno ar ddulliau.

## 8. Crynodeb

Mae'r map trywydd a'r camau gweithredu ynddo'n adlewyrchu ymrwymiad Medr i gyflawni ei ddyletswydd strategol i hybu Golwg Fyd-eang yng nghyd-destun ei gyfrifoldebau ehangach fel y cyllidwr a'r rheoleiddiwr.

Mae'n adlewyrchu'r amgylchedd a'r cyd-destun cymhleth y bydd yn gweithredu ynddo ac felly mae wedi cael ei ddylunio i daro cydbwysedd rhwng sefydlogrwydd a bwriad eglur trwy adnabod tri maes thematig trosfwaol, gan gadw'r gallu i addasu sy'n ofynnol i ymateb i dirwedd sy'n newid trwy gymhwyso dull hyblyg, seiliedig-ar-anghenion i'r adnoddau a ddyrennir i'r camau gweithredu ategol.

Bydd y dull hwn yn galluogi Medr i gyflawni ei ddyletswydd strategol trwy ymdrin â'i amcanion craidd ar gyfer golwg fyd-eang a amlinellir yn Neddf 2022:

1) **Hybu symudedd**
2) **Galluogi cydlafurio rhyngwladol**
3) **Cynyddu i'r eithaf y budd i Gymru**

Bydd y gweithgareddau yn y map trywydd yn galluogi Medr i gyflawni cyfrifoldebau ein dyletswydd strategol ac ehangu ymgysylltiad rhyngwladol ar draws y sector trydyddol trwy:

- Ddarparu rhagor o fewnwelediad a hwnnw'n fewnwelediad gwell i wella prosesau penderfynu strategol,
- Cynnig cymorth i bartneriaethau cyfnod cynnar i hwyluso rhagor o bartneriaethau a'r rheiny'n gryfach, a
- Chynyddu ymgysylltiad a chysylltedd â rhanddeiliaid allweddol i alluogi mwy o gyfranogiad a gwydnwch

Gan arwain at:

- Fwy o symudedd

- Mwy o gydlafurio, yn rhyngwladol ac yng Nghymru, a
- Mwy o fudd hirdymor i Gymru

Wrth edrych tua’r dyfodol, bydd y dull o gyflawni’r map trywydd Golwg Fyd-eang yn barhaus yn adlewyrchu’r broses a ddilynwyd i’w ddylunio, trwy flaenoriaethu ymgysylltu a chydlafurio – gartref ac yn rhyngwladol – a chanolbwyntio ar gyflawni’r deilliannau gorau posibl i Gymru, ei dysgwyr a’i darparwyr addysg.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government